# Yn y Gofod



Mae rhai pobl yn byw ac yn gweithio mewn gorsaf arbennig yn y gofod.

**Yr Orsaf Ofod Ryngwladol (*The International Space Station*)**



Mae'r orsaf yn teithio 400 km uwchben y Ddaear. Mae hi'n teithio rownd a rownd y Ddaear. Mae hi'n gallu teithio o gwmpas y Ddaear mewn 90 munud.

Mae'n bosib gweld yr orsaf o'r Ddaear weithiau.

## Byw yn y gofod



**Gweithio:**
Mae'r bobl yn gweithio yn yr orsaf ond weithiau rhaid cerdded tu allan, yn y gofod. Rhaid gwisgo dillad arbennig i gerdded yn y gofod.

**Cadw'n heini:**
Mae'r bobl yn cadw'n heini bob dydd. Maen nhw'n cerdded ar *treadmills* ac maen nhw'n beicio ar feiciau arbennig.

**Bwyta:**
Mae'r bobl yn bwyta bwyd sych, bwyd wedi rhewi, bwyd mewn tun a ffrwythau ffres.

**Mwynhau:**
Maen nhw'n chwarae gemau, gwylio DVDs ac yn gwrando ar fiwsig.

**Cysgu:**
Maen nhw'n cysgu mewn sach gysgu ond rhaid clymu'r sach gysgu i'r wal neu maen nhw'n hofran o gwmpas. Maen nhw'n cysgu am 8 awr bob nos.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gorsaf | station | sych | dry |
| gweithio | to work | wedi rhewi | frozen |
| arbennig | special | sach gysgu | sleeping bag |
| uwchben | above | clymu | to tie |
| o gwmpas | around | hofran | to float |
| cadw'n heini | to keep fit | | |